Dadansoddiad o Adroddiadau Arolygu
CYSAG Sir Ddinbych

Gwanwyn 2018

(Adroddiadau a gyhoeddwyd yn nhymor yr Hydref)

3 ysgol

Ysgol	Dyddiadau
Ysgol y Faenol	**Hydref 2017**
Mae Ysgol y Faenol ym mhentref Bodelwyddan, tua phedair milltir o ddwyrain Abergele. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn byw yn y pentref a'r ardal gyfagos. Mae teuluoedd yn symud i mewn ac allan o'r ardal yn gyson, ac o ganlyniad, mae cryn symudiad i mewn ac allan o'r ysgol. Ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol 154 o ddisgyblion, gan gynnwys 21 disgybl sy'n mynychu'r dosbarth meithrin yn rhan-amser. Mae disgyblion yn cael eu dysgu mewn pum dosbarth oedran cymysg. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg fel ei iaith gyntaf ac mae oddeutu 10% yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae oddeutu 15% o'r disgyblion yn dod o gefndiroedd lleiafrifol ethnig ac mae oddeutu 22% o'r disgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 19%. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan tua 26% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 21%.	
Ysgol Gynradd Rhewl	**Medi 2017**
Mae Ysgol Gynradd Rhewl ym mhentref Rhewl ger Rhuthun yn Sir Ddinbych. Ar hyn o bryd mae 24 o ddisgyblion ar y gofrestr, rhwng 3 ac 11 oed, nifer ohonynt yn dod o'r pentref a'r ardal gyfagos. Mae nifer y disgyblion wedi gostwng yn sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, oherwydd y posibilrwydd y bydd yn cau ym mis Gorffennaf 2018, flwyddyn yn ddiweddarach nag y cynlluniwyd yn wreiddiol. Mae dau ddosbarth oedran cymysg, un ar gyfer disgyblion y cyfnod sylfaen a'r llall ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 2. Mae'r disgyblion yn cael eu dysgu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg. Serch hynny, mae'r ysgol wedi ei dosbarthu yn ysgol ddwyieithog ddynodedig, a ddylai ddarparu ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg a Saesneg, yn ôl y galw. Mae oddeutu 16% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Y gyfran gyfartalog o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros y tair blynedd ddiwethaf yw 10%, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 19%. Mae'r ysgol wedi nodi mai ychydig iawn o'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol.	
Ysgol Bro Cinmeirch	**Medi 2017**
Mae Ysgol Bro Cinmeirch wedi ei lleoli rhwng Llanrhaeadr a Llanrhaeadr yng Nghinmeirch, oddeutu tair milltir o dref Dinbych. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal leol ac yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol Sir Ddinbych. Cymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol. Mae 85 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 mlwydd oed ar y gofrestr, gan gynnwys 8 o ddisgyblion rhan-amser yn y feithrinfa. Maent wedi eu gwahanu'n 4 dosbarth oedran cymysg. Mae oddeutu 3% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r ganran genedlaethol. Lleiafrif o'r disgyblion (44%) sy'n siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sy'n dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Mae'r ysgol yn nodi bod gan oddeutu 14% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol.	

Fframwaith Archwilio Presennol

Safonau

- Mae *Disgyblion* yn darparu troslais effeithiol ar gyfer fideos byr yn disgrifio stori'r Pasg, gan ddefnyddio goslef a mynegiant da. (Ysgol y Faenol)

Lles

- Mae disgyblion yn datblygu'n dda fel dinasyddion moesegol, gwybodus. (Ysgol y Faenol)
- Mae pwyslais cadarn yn yr ysgol ar annog tegwch, cydraddoldeb a goddefgarwch o eraill ac mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i hyn. Er enghraifft, maent yn dysgu am werthoedd pwysig fel parch fel rhan o'r gwaith prosiect yn edrych ar hawliau dynol. (Ysgol y Faenol)

Gofal, cymorth ac Arweiniad,

- Mae cwricwlwm eang yr ysgol yn rhoi sylw da i ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae'n helpu i'w paratoi nhw'n dda i fod yn ddinasyddion gweithredol ac yn datblygu gwerthoedd pwysig fel goddefgarwch a pharch yn effeithiol. Er enghraifft, drwy ddysgu am feddylwyr dylanwadol a gweithredwyr gwleidyddol fel Nelson Mandela a Malala Yousafzai, mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerth chweil i ddysgu am ryddid, cyfiawnder a hawliau dynol. (Ysgol y Faenol)
- Drwy'r cwricwlwm, arferion dyddiol, amser cylch a gweithredoedd addoli ar y cyd, mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o werthoedd fel gonestrwydd, goddefgarwch a chydraddoldeb yn effeithiol. (Ysgol Gynradd Rhewl)
- Caiff y disgyblion gyfleoedd gwerth chweil i ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. (Ysgol Gynradd Rhewl)
- Mae cynlluniau gwaith yr athrawon yn gadarn ac yn sicrhau fod disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth gadarn o ddiwylliant, hanes a thraddodiadau eu cymuned leol a Chymru. Mae hyn wrth galon holl fywyd a gwaith yr ysgol. Mae cynlluniau'n canolbwyntio'n wych ar ddatblygu sgiliau llythrennedd a chreadigrwydd y disgyblion yn gydlynol, drwy astudio cymeriadau hanesyddol fel Hedd Wyn a Mari Jones. (Ysgol Bro Cinmeirch)
- Mae darpariaeth ar gyfer datblygu dealltwriaeth o gredoau a thraddodiadau'r byd yn effeithiol, drwy astudio bywyd ac arferion yng Ngwlad Thai, a gwledydd Affrica ac Ewrop. Mae darpariaeth yr ysgol i ddatblygu dealltwriaeth ysbrydol a moesol y disgyblion yn dda. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd ar draws y cwricwlwm i alluogi disgyblion i ehangu eu hagweddau tuag at hawliau dynol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn unigolion moesegol a gwybodus. (Ysgol Bro Cinmeirch)